

Eiriolwr/ Cynrychiolydd	Person a allai siarad ar eich rhan naill ai'n ysgrifenedig neu'n llafar.
Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru	Corff o bobl (gall rhai arbenigo ym meysydd cyfreithiol, draenio, ffermio neu dirfeddianwyr) a fydd yn edrych ar y cais a wnaed i'r Tribiwnlys o dan ddarpariaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 neu Ddeddf Draenio Tir 1991.
Ymgeisydd	Y person sy'n gwneud y cais.
Bwndel	Set o bapurau/dogfennau sydd ei hangen ar gyfer y Tribiwnlys a gwrandawriad dilynol.
Cyfarwyddiadau	Dogfen sy'n cynnwys camau penodol i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol am yr achos yn cael ei darparu.
Adroddiad Draenio	Adroddiad annibynnol a fydd yn argymhell i'r Tribiwnlys nad oes angen gwneud unrhyw waith, neu a fydd yn nodi pa waith ddylid ei wneud os oes angen.
Tystiolaeth arbenigwyr	Efallai y gelwir ar arbenigwyr yn eu meysydd, fel Priswyr, Syrfewyr, Cyfreithwyr ac ati i roi dystiolaeth.
Person â Budd	Unrhyw berson sydd â stad neu fudd yn y cais.
Awdurdodaeth	Awdurdod i ddelio â'r mater.
Landlord	Person neu sefydliad sy'n berchen ar yr eiddo.
Asesiad Incwm Blynyddol Net	Mae Asesiad Incwm Blynyddol Net yn pennu incwm blynyddol net uned o dir amaethyddol.
Gwrandawriad Papur	Penderfyniad a wneir heb wrandawriad llafar.
Cyfranogwr	Ymgeisydd neu barti neu dyst neu berson arall sy'n cymryd rhan yn y trafodion sy'n ymwneud â chais neu y mae gorchymyn a wneir gan y Tribiwnlys yn berthnasol iddo.
Gwrandawriad Rhagarweiniol	Gwrandawriad i benderfynu a oes gan y Tribiwnlys yr awdurdod cyfreithiol i ddelio â'r mater dan sylw.
Ymatebydd	Y person y gwneir y cais yn ei erbyn.
Ysgrifenyddiaeth	Y staff gweinyddol sy'n delio â gohebiaeth ac yn gweinyddu'r holl geisiadau i'r Tribiwnlys.

Ymweliad Safle	Arolygiad o'r tir y mae'r cais yn berthnasol iddo.
Cynrychiolaeth/ Tystiolaeth Ysgrifenedig	Gohebiaeth ysgrifenedig sy'n rhoi gwybodaeth i gefnogi'r cais.